**Gweinyddydd Iechyd, Diogelwch a Lles (502270)**
**GRADD 6**
**Nifer o oriau : 37 awr yr wythnos**
**CYFLOG: o £21,695 i £22,571**

Cododd swydd barhaol fel **Gweinyddydd Iechyd, Diogelwch a Lles** o fewn y **Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles** yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Lleolir y rôl hon yn ein pencadlys yn Llantrisant ac mae'n **swydd llawn amser (37 awr yr wythnos).** Rydym yn sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd a bydd system gweithio'n hyblyg mewn grym.

Bydd y swydd hon fel rhan o'r Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles yn gyfrifol am gyflawni ystod o swyddogaethau gweinyddol ac yn darparu pwynt cyswllt canolog i'r gwasanaeth. Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus gynorthwyo i gynnal tîm proffesiynol sy'n darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol Iechyd, Diogelwch a Lles o ansawdd a chywir i alluogi Rheolwyr Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a gweithwyr/gwirfoddolwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol yn effeithiol.

Dylid dychwelyd ffurflenni cais wedi'u cwblhau i: Tîm Recriwtio ac Adnoddau, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy e-bost at personnel@southwales-fire.gov.uk.
Y dyddiad cau ar gyfer ffurflenni cais yw 8 Gorffennaf 2022 am hanner dydd

Sylwch nad ydym yn derbyn CVs.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac rydym yn croesawu gohebiaeth yn y naill iaith neu'r llall. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu yng ngwir werth cael gweithlu amrywiol ac rydym am annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**